OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 No. 58

# Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2016

## RHAN 10

## Datblygiad Anawdurdodedig

**Effeithiau trawsffiniol sylweddol**

**51.** Mae rheoliad 53 yn gymwys i ddatblygiad AEA anawdurdodedig fel pe bai—

(a) rheoliad 53(1)(a) yn darllen—

“(a) wrth ystyried apêl o dan adran 174 o Ddeddf 1990, mae Gweinidogion Cymru o’r farn bod y materion yr honnir eu bod yn golygu torri rheol gynllunio yn ddatblygiad AEA neu’n cynnwys datblygiad AEA a bod y datblygiad wedi neu yn debygol o gael effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd mewn Gwladwriaeth AEE arall; neu”;

(b) yn rheoliad 53(3)(a), “copi o’r cais dan sylw”, yn darllen “disgrifiad o’r datblygiad dan sylw”;

(c) yn rheoliad 53(6), “y cais” yn darllen “yr apêl”.